# PWYLLGORAU CRAFFU POLISI AC ADNODDAU & CYMUNEDAU AC ADFWYIO

Dydd Gwener, 10 Mehefin 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, K.V. Broom, D.M. Cundy, H.L. Davies, J.S. Edmunds, D.C. Evans, R.E. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, G.H. John, B.W. Jones, C. Jones, H.I. Jones, K. Madge, S. Matthews, H.B. Shepardson a D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd E. Dole, Arweinydd y Cyngor;
Y Cynghorydd D.M. Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Jones, Pennaeth Adfywio
H. Pugh, Pennaeth Dros Dro Archwilio, Riag a Chaffael;
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;
C. Jones, Prif Swyddog Caffael
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
**Rhith-Gyfarfod: 2.30 yp - 4.25 yp**

**1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd A. G. Morgan yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.**

**2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd W.R.A. Davies.

**3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Broom | 4 - Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin; | Mae ganddi fuddiant busnes yn Sir Gâr; |
| E. Dole | 4 - Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin; | Mae gan ei wraig ddau fuddiant busnes; |
| A.G. Morgan | 4 - Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin; | Mae'n denant yn Swyddfeydd y Cyngor, Llynnoedd Delta, Llanelli. |

## 4. CYNLLUN ADFER A CHYFLAWNI ECONOMAIDD SIR GAERFYRDDIN

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad diweddaru am Gynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin a oedd yn nodi rhyw 30 o gamau gweithredu i gefnogi adferiad economi Sir Gaerfyrddin yn sgil effeithiau cymdeithasol ac economaidd pandemig COVID-19 a Brexit. Nodai'r adroddiad flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer cefnogi Busnes, Pobl a Lleoedd. Barnwyd y byddai'r cymorth hwn yn galluogi economi Sir Gaerfyrddin i adfer cyn gynted â phosibl i ddod yn un oedd yn fwy cynhyrchiol nag yr oedd o'r blaen, yn fwy cyfartal, yn fwy gwyrdd, yn iachach, a chyda chymunedau mwy cynaliadwy. Diben y Cynllun oedd nodi'r blaenoriaethau tymor byr a'r camau cyntaf ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, a oedd yn diogelu swyddi a busnesau yn Sir Gaerfyrddin.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Pwysleisiwyd mai cynllun adfer Sirol oedd hwn yn hytrach na chynllun twf, gyda 3 chynllun adfer canol tref ar gyfer y prif drefi ar waith. Roedd y cynlluniau twf '10 tref' hefyd yn cael eu cwblhau;
- Ystyriwyd bod 'lleoliaeth' yn biler hollbwysig a fyddai'n sail i unrhyw adferiad;
- Er bod gan y Cyngor rywfaint o rym i ddylanwadu ar lefel yr ardrethi busnes, dan fenter gan Lywodraeth Cymru sydd ar waith ar hyn o bryd tan fis Mawrth 2022, roedd yn rhaid i landlordiaid dalu'r ardreth fusnes ar unrhyw eiddo adwerthu gwag, a fyddai, gobeithio, yn gymhelliad i landlordiaid gael tenantiaid ar gyfer eiddo o'r fath;
- Byddid yn cyflwyno'r adroddiad monitro i'r Bwrdd Gweithredol bob chwarter;
- Mewn ymateb i bryder ynglŷn â'r angen i gyflymu'r prosesau cynllunio o ran ceisiadau cynllunio a allai ddod â chyfleoedd gwaith, dywedodd yr Arweinydd fod adolygiad wedi'i gynnal a bod cynigion yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau uchelgeisiau'r Awdurdod o ran adfywio;
- Roeddid yn disgwyl ymateb gan San Steffan ynghylch cynigion Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â'r gronfa Codi'r Gwastad;
- Cyfeiriwyd at gynllun '100% Sir Gâr – Lleol Amdani' a oedd wedi rhoi llwyfan digidol i fanwerthwyr llai a hefyd ailfrandio twristiaeth Sir Gaerfyrddin, lle roedd tîm o swyddogion twristiaeth ac adfywio yn gweithio gyda chymunedau yn y mannau twristiaeth prysuraf;
- Er nodi bod materion trafnidiaeth rhanbarthol a lleol wedi'u mandadu i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru, roedd ystyried barn a gofynion lleol yn hanfodol;
- Cadarnhaodd yr Arweinydd fod Rheilffordd Aman wedi'i chynnwys mewn trafodaethau ar y metro rhanbarthol;
- Yn deillio o sylwadau ar hyrwyddo Sir Gaerfyrddin fel cyrchfan i dwristiaid, dywedodd yr Arweinydd fod cais wedi cael ei wneud am gael cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i drafod tai haf, a oedd yn destun pryder;
- Nodwyd bod Grŵp Ynni Gorllewin Cymru yn ymchwilio i faterion yn ymwneud â chysylltedd grid gan fod cysylltiad gwael yn rhwystr o ran creu ynni adnewyddadwy a'r uchelgais i fod yn garbon sero-net;
- O ran pryder bod rhai o fannau prydferth Sir Gaerfyrddin yn cael eu difetha gan yr holl sbwriel oedd o amgylch banciau poteli, rhoddwyd gwybod i'r

Pwyllgor fod cynlluniau ar y gweill i gasglu gwydr i'w ailgylchu o drothwy'r drws.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**5. HYRWYDDO CAFFAEL BLAENGAR**

Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau adroddiad yn manylu ar ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo caffael blaengar. Cynlluniwyd yr adolygiad hwn o gyfleoedd caffael blaengar o dan brosiect caffael bwyd sector cyhoeddus Sir Gaerfyrddin yn wreiddiol, a ariannwyd drwy gronfa Her yr Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru. Er bod hyn yn dal i gael ei gefnogi, barnwyd bod sefyllfa COVID-19 wedi rhoi mwy o ffocws ac ysgogiad a manteisiwyd ar y cyfle i ymestyn cwmpas gwreiddiol y prosiect o fwyd yn unig i gwmpasu holl wariant caffael y Cyngor. Mae gan y gwaith hwn gysylltiad agos iawn â chynllun adfer economaidd y Cyngor ac mae caffael blaengar yn un o themâu allweddol y cynllun hwnnw.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Fel rhan o'r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad, byddai swyddogion yn cael eu hannog i 'feddwl yn lleol yn gyntaf' o ran pryniannau/contractau o £25k neu lai;
- Byddai Busnesau Bach a Chanolig eu Maint (BBaChau) yn cael gwybod ar beth roedd y Cyngor yn debygol o wario dros y blynyddoedd nesaf, fel y gallent fod yn fwy parod o ran tendro. Roedd gan y Cyngor hefyd dîm ymroddedig i helpu ac ymgysylltu â BBaChau ar brosesau tendro;
- Byddai mwy o ffocws ar entrepreneuriaeth leol a busnesau newydd;
- Nodwyd y gallai contractau mwy gael eu 'lotio' fel y gallai cwmnïau lleol llai wneud cais am elfennau o'r gwaith;
- Roedd Canllaw i Gyflenwyr wedi'i lunio i gwmnïau oedd yn dymuno gwneud cais am waith gyda'r Cyngor;
- Mewn ymateb i sylw, roedd yn cael ei gydnabod bod diffyg unedau ar gyfer busnesau newydd mewn rhai ardaloedd a byddai hyn yn rhan o waith y cynllun adfer gyda chyllid ar gael i ddatblygwyr eiddo;
- Byddai sylw'n cael ei roi i'r ffordd roedd prif gontractwr cynllun Pentre Awel yn ymgysylltu â chwmnïau lleol;
- Byddai disgwyl i gwmnïau yn Fframwaith Adeiladu'r Awdurdod ar gyfer Pentre Awel sicrhau manteision cymunedol fel prentisiaethau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |